## TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD CABINET

PWNC: **GWERTHU A RHYDDHAU LLUSERNAU AWYR AR DIR SY'N EIDDO I'R CYNGOR AC YN CAEL EI REOLI GANDDO /** SKY LANTERN SALES AND RELEASE ON LAND OWNED AND MANAGED BY GWYNEDD COUNCIL

---

AELOD CABINET: **CYNGHORYDD DAFYDD MEURIG**

---

### PENDERFYNIAD

Cymeradwyo mabwysiadu polisi sy'n gwahardd gwerthu a rhyddhau llusernau awyr o dir yr awdurdod ac mewn digwyddiadau a gefnogir gan y Cyngor.

*To approve the adoption of a policy banning sky lantern sales and release from the authority's land and from events supported by the Council.*

---

### RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Mae Cyngor Gwynedd yn un o'r tirfeddianwyr mwyaf yn y Sir. Cydnabyddir y gall gweithgareddau'r Awdurdod a gweithgareddau gan eraill a ganiateir oddi mewn i'r daliadau hyn gael effaith ar yr amgylchedd lleol.

Mae gwaith ymchwil i effaith amgylcheddol llusernau awyr wedi dod i'r casgliad y gallant ddod yn ffurf ddifrifol o lygredd unwaith y cânt eu rhyddhau.

Mae'r Gymdeithas Cadwraeth Forol, yr RSPCA, Grŵp Tidy Britain ac Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr yn rhannu'r farn na ddylai rhyddhau balŵns ddigwydd yn y DU, waeth a yw'r balŵns yn rhai bioddiraddadwy ai peidio, o ystyried y dystiolaeth am y niwed y gallant ei achosi i fywyd gwyllt a'r difrod esthetig i'r amgylchedd.

Mae swyddogion wedi archwilio'r wybodaeth a'r ymchwil berthnasol i'r mater ac wedi dod i'r casgliad ei bod yn briodol mabwysiadu polisi clir sy'n gwrthod caniatáu i unrhyw un werthu neu ryddhau llusernau awyr o unrhyw dir sy'n eiddo i/yn cael ei reoli gan y Cyngor neu mewn digwyddiadau a gefnogir gan y Cyngor, waeth beth yw pwrpas eu rhyddhau.

*Gwynedd Council is one of the largest land owners in the County. It is recognised that the Authority's activities and the permitted activities of others within these holdings can have an impact on the local environment.*

*Research into the environmental impact of sky lanterns has concluded that once released, they can become a serious form of pollution.*

*The Marine Conservation Society, the Royal Society for the Prevention of Cruelty to Animals, the Tidy Britain Group and the National Farmers Union share the view that balloon releases, regardless of whether the balloons are biodegradable or not, should not occur in the UK given the evidence for the harm that they cause to wildlife and the aesthetic damage to the environment.*

*Officers have examined the relevant information and research into the matter and have concluded that it is appropriate to adopt a coherent policy which refuses permission for any sky lantern sales or release release from any Council owned/controlled land or at events supported by the Council regardless of the purpose(s) for the release.*

---

## YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

Wrth ddatblygu'r polisi, cysylltwyd ag Awdurdodau Lleol eraill sydd wedi cymryd y cam o wahardd y weithred o ryddhau llusernau awyr a balŵns o'u tiroedd, fel Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.

Ymgynghorwyd â'r unedau perthnasol yn yr Adran Rheoleiddio, yr Adran Economi a Chymuned a'r Gwasanaeth Eiddo. Mae cytundeb y gallai'r polisi gyfrannu at amddiffyn yr amgylchedd rhag canlyniadau anfwriadol rhyddhau llusernau awyr.

Ymgynghorwyd â'r Adran Gyfreithiol hefyd ac ystyriwyd yr opsiwn o gynnwys y gweithgaredd hwn fel gweithgaredd gwaharddedig mewn is-ddeddfau lleol. Fodd bynnag, ystyriwyd bod hyn yn anymarferol gan y byddai'n anodd os nad yn amhosib sicrhau gorfodaeth.

Mae Cadw Cymru'n Daclus wedi cynghori awdurdodau lleol bod mabwysiadu polisi o'r fath yn ymateb priodol i'r broblem o sbwriel balŵns.

Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn gysylltiedig â chymeradwyo'r polisi hwn, ond mae goblygiadau o ran yr adnoddau dynol cyfyngedig sydd ar gael i rannu gwybodaeth, codi ymwybyddiaeth ac ymdrin ag ymholiadau ynghylch digwyddiadau.

Y prif risg sy'n gysylltiedig â mabwysiadu'r polisi yw'r posibilrwydd o gyhoeddusrwydd gwael.

Bydd y polisi hwn yn cael ei gyfathrebu i staff, Aelodau a'r gymuned ehangach a bydd yn cael ei adolygu bob pum mlynedd.

*During the development of the policy, contact was made with other Local Authorities who have taken the step of banning sky lantern and balloon releases from their land, such as Conwy County Borough Council.*

*The relevant units within the Regulatory Department, Economy and Regeneration and the Property Service were consulted. There is agreement that the policy could contribute to protecting the environment from the unintended consequences of sky lantern releases.*

*The Legal Department has also been consulted and the option to include this activity as a prohibited activity within local byelaws was considered. This however was thought impractical as enforcement would be difficult if not impossible to undertake.*

*Keep Wales Tidy have advised local authorities that adopting such a policy is an appropriate response to the problem of balloon littering.*

*There are no financial implications associated with approving this policy but there are limited human resource implications in relation to disseminating information, raising awareness and dealing with event enquiries.*

*The main risk arising from the adoption of this policy is the possibility of adverse publicity.*

*This policy will be communicated to staff, Members and the wider community and will be reviewed every 5 years.*

BARN Y SWYDDOGION STATUDOL

1. Y Prif Weithredwr
   Dim i'w ychwanegu/ *Nothing to add*

2. Swyddog Monitro
   Mae amcanion y polisi yn cynrychioli ymdrech i reoli problem ysbwriel a diogelwch. Mae gallu'r Cyngor i weithredu a gorfodi rhai agweddau o'r polisi yn ddibynnol ar lefel y rheolaeth sydd gan yr Awdurdod dros y tir neu eiddo dan sylw. Gall hyn fod yn destun arweiniad pellach pe cyfyd yr angen i weithredu mewn achosion penodol.
   *The objectives of the policy represents an attempt to control problems of Litter and safety. The Council's ability to implement and enforce some aspects of the policy will depend on the level of the Authority's control over the land or property concerned. This may be the subject of further guidance should the need arise to act in specific cases.*

3. Prif Swyddog Cyllid
   "Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb ariannol/ *Nothing to add from a financial propriety perspective*"

BARN YR AELOD LLEOL

**Dim yn fater lleol / Not al Local Matter**

| LLOFNOD | DYDDIAD |
|---|---|
|  | 24.02.15 |

# GWERTHU A RHYDDHAU LLUSERNAU AWYR AR DIR SY'N EIDDO I'R CYNGOR NEU'N CAEL EI REOLI GANDDO

## 1.0 DATGANIAD POLISI

1.1 Mae Cyngor Gwynedd yn un o'r tirfeddianwyr mwyaf yn y Sir, a chydnabyddir bod ei weithgareddau a gweithgareddau a ganiateir ar dir sy'n eiddo i'r Cyngor neu ar dir gaiff ei reoli ganddo yn cael effaith sylweddol ar yr amgylchedd lleol. O ganlyniad mae'r Cyngor wedi edrych ar y materion sy'n gysylltiedig â sbwriel llusernau awyr a balŵns ac wedi dod i'r casgliad ei bod yn gyfrifoldeb ar Gyngor Gwynedd i fabwysiadu polisi clir ar werthu a rhyddhau llusernau awyr.

1.2 Yn wyneb tystiolaeth gynyddol ynglŷn ag effeithiau niweidiol sbwriel balŵns ar yr amgylchedd (yn enwedig yn yr amgylchedd morol) ac ar ôl ystyriaeth ofalus, mae Cyngor Gwynedd yn gwrthod caniatâd i unrhyw un werthu neu ryddhau llusernau awyr ar unrhyw dir sy'n eiddo i/yn cael ei reoli gan y Cyngor.

1.3 Dylai rhyddhau balŵns gael ei ystyried yn enghraifft o daflu sbwriel dan Ddeddf Amddiffyn yr Amgylchedd 1990, sy'n ei gwneud yn drosedd gadael sbwriel mewn llefydd cyhoeddus. Mae'n gyfrifoldeb ar Gyngor Gwynedd i sicrhau bod llefydd agored gwyrdd, cyhoeddus yn rhydd o sbwriel ac o'r herwydd, mae'r Awdurdod Lleol yn cyflawni ei ddyletswyddau statudol trwy ddatblygu'r polisi hwn. Byddai'n mynd yn groes i ysbryd y ddeddf pe bai'r Cyngor yn caniatáu gweithgareddau ar ei dir fyddai'n arwain at adael sbwriel ar diroedd cyfagos neu yn yr amgylchedd morol.

## 2.0 SGÔP Y POLISI

2.1 Mae'r polisi hwn yn ymwneud â phob achos o werthu a rhyddhau llusernau awyr ar dir sy'n eiddo i Gyngor Gwynedd neu mewn digwyddiadau awyr agored a gefnogir gan Gyngor Gwynedd.

2.2 O fewn y polisi hwn mae'r term "rhyddhau llusernau awyr" yn cyfeirio at y weithred fwriadol o ryddhau llusern awyr i'r amgylchedd agored.

## 3.0 NODAU'R POLISI

3.1 Mae Cyngor Gwynedd yn ymroddedig i:

- Beidio â chaniatáu i unrhyw ddigwyddiadau gael eu trefnu ar gyfer gwerthu neu ryddhau llusernau awyr ar dir sy'n eiddo i Gyngor Gwynedd neu a reolir ganddo;
- Gorfodi'r deddfwriaethau amgylcheddol perthnasol sy'n ymwneud â gollwng sbwriel mewn llefydd cyhoeddus;
- Codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o faterion amgylcheddol sy'n gysylltiedig â rhyddhau llusernau awyr;
- Sicrhau, cyn belled ag y bo modd, fod llefydd cyhoeddus gwyrdd agored a thir arall sy'n eiddo i Gyngor Gwynedd ac yn cael ei reoli ganddo yn aros yn rhydd o sbwriel balŵns; a
- Bod yn gymydog cyfrifol a pheidio â chyfrannu at sbwriel trwy ganiatáu gweithgareddau ar dir sy'n eiddo i Gyngor Gwynedd sy'n arwain at sbwriel yn cael ei adael ar dir cyfagos neu yn yr amgylchedd morol.

## 4.0 CYFRIFOLDEB

4.1 Bydd yr Uned Gwasanaethau Stryd yn yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol yn cymryd y prif gyfrifoldeb am sicrhau bod y polisi hwn yn cael ei weithredu. Fodd bynnag, bydd gan adrannau eraill sydd â diddordeb mewn rheoli daliadau tir y Cyngor neu'r rheini sy'n cynghori ac yn cefnogi digwyddiadau a gynhelir ar dir y Cyngor neu'r rhai gaiff eu cefnogi'n ariannol neu'n weinyddol gan y Cyngor, rôl i'w chwarae wrth weithredu'r polisi a chodi ymwybyddiaeth ohono.

## 5.0 YMGYNGHORI, MONITRO AC ADOLYGU

5.1 Bydd y polisi hwn yn cael ei fonitro drwy gydol ei oes a bydd yn cael ei adolygu bob pum mlynedd.

## 6.0 CYFATHREBU

6.1 Bydd y polisi hwn yn cael ei gyfathrebu i staff, Aelodau a'r gymuned ehangach gan ddefnyddio'r dulliau a ganlyn:

- Y rhyngrwyd a'r fewnrwyd
- Cyhoeddiadau Gwynedd, gan gynnwys Newyddion Gwynedd, y cylchlythyr staff a chyfarfodydd briffio timau.

# SKY LANTERN SALES AND RELEASE ON LAND OWNED OR MANAGED BY GWYNEDD COUNCIL

1.0 POLICY STATEMENT

1.1 Gwynedd Council is one of the largest land owners in the County, and it is recognised that it's activities and permitted activities on land owned or managed by the Council have a significant impact on the local environment. Consequently the Council has examined the issues surrounding sky lantern and balloon litter and have concluded that it is the responsibly of Gwynedd Council to adopt a coherent sky lantern sales and release policy.

1.2 In light of increasing evidence regarding the harmful impacts of balloon litter to the environment (in particular within the marine environment) and after careful consideration, Gwynedd Council refuses permission for any sales or release of sky lanterns from any Council owned/controlled land.

1.3 The release of balloons should be viewed as littering under the Environmental Protection Act, 1990, which makes it an offence to deposit litter in public places. It is the responsibility of Gwynedd Council to ensure that public green open spaces remain free from litter and as such, the Local Authority is fulfilling its statutory duties through the development of this policy. It would be against the spirit of the Act if the Council allowed activities on its land which had the effect of littering adjoining lands or the marine environment.

2.0 POLICY SCOPE

2.1 This policy covers all sky lantern sales and release on Gwynedd Council owned land or at outdoor events endorsed by Gwynedd Council.

2.2 Within this policy the term "sky lantern releases" refers to the intentional act of releasing a sky lantern into the general environment.

## 3.0 POLICY AIMS

3.1 Gwynedd Council is committed to:

- Allowing no organised sky lantern sales or release to take place on land owned or managed by Gwynedd Council;
- Enforcing the relevant environmental legislations concerning litter in public places;
- Raising awareness and understanding of environmental issues concerning sky lantern release;
- Ensuring, in so far as possible, that public green open spaces, and other land owned and managed by the Council remains free from balloon litter; and
- Being a responsible neighbour and not contributing to littering by allowing activities on Gwynedd Council owned land that result in litter being deposited on adjoining land or in the marine environment.

## 4.0 RESPONSIBILITY

4.1 The Street Scene Unit within the Highways and Municipal Service will take the lead responsibility of ensuring that this policy is implemented. However, other departments which have and interest in managing the Council's land holdings or those which advise and support events held on Council land or supported financially or administratively by the Council, will have a role in implementing and raising awareness of the policy.

## 5.0 CONSULTATION, MONITORING AND REVIEW

5.1 This policy will be monitored over the course of its lifetime and will be reviewed every five years.

## 6.0 COMMUNICATION

6.1 This policy will be communicated to staff, Members and the wider community using the following mechanisms:

- Internet and intranet
- Gwynedd publications, including Newyddion Gwynedd, staff newsletter and team briefings